**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**MeetingLocation**

**MeetingDate am MeetingTime**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Bailey | P M Black | P Downing |
| A J Jeffery | M H Jones | S E Keeton |
| M B Lewis | R D Lewis | N L Matthews |
| T M White | R A Williams | |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorwyr M Durke, O G James, E J King a J D McGettrick

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Andrew Ferguson | Arweinydd Tîm Ardal |
| Dave Owen | Prif Swyddog Cynllunio |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

### 20 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 21 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2 Awst 2022 fel cofnod cywir.

### 22 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Dim.

## 23 Hawliau Tramwy Cyhoeddus - Cais i Arallgyfeirio Llwybr Troed MU5 oddi ar Higher Lane Cymuned y Mwmbwls.

Cyflwynodd y Prif Gyfreithiwr ar ran y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth ynghylch a ddylid derbyn neu wrthod cais a wnaed i'r awdurdod hwn o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i wneud gorchymyn gwyro llwybr cyhoeddus ar gyfer llwybr troed MU5.

Cafodd y manylion cefndir a hanes y mater eu hamlinellu a manylwyd arnynt yn yr adroddiad gan swyddogion, gan gynnwys y tir a'r llwybrau yr effeithiwyd arnynt, y gweithdrefnau cyfreithiol a ddilynwyd, a'r ystyriaethau a'r ymgynghoriadau yr ymgymerwyd â hwy.

Cafodd yr ymatebion a'r gwrthwynebiadau i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd eu hamlinellu gan y Swyddog a'u manylu'n llawn yn yr adroddiad.

Manylodd nad yw'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn cael eu hystyried yn ddigon perswadiol i warantu gwrthod y cais.

**Penderfynwyd:**

(1) cymeradwyo'r cais a bod gorchymyn gwyro llwybr cyhoeddus yn cael ei wneud, ac:
(2) os derbynnir gwrthwynebiadau i'r gorchymyn, cyfeirir y gorchymyn at Weinidogion Cymru i benderfynu arno.

## 24 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

(Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod.)

**Penderfynwyd**

1) **gohirio'r** cais cynllunio isod o dan y broses bleidleisio ddau gam am adroddiad pellach ar y rhesymau dros wrthod ar sail effaith andwyol ar amwynder preswyl; effaith parcio a goleuo ar y strydlun; yn groes i Bolisi CDLl PS2.

**<u>(Eitem 1) - Cais Cynllunio 2022/1230/FUL - Estyniad ochr deulawr a newid defnydd o Adeilad Clinig Iechyd presennol (Dosbarth D1) i Ganolfan Breswyl i Fenywod (Dosbarth C2A) a gwaith cysylltiedig yn Nhrehafod, Waunarlwydd Road, y Cocyd, Abertawe</u>**

Cyn gohirio

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Helen Jones, Liz McWilliams, Alan Cunningham a Stuart Owen (gwrthwynebwyr).

Anerchwyd y pwyllgor gan Chris Jennings ar ran yr ymgeisydd, y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd James McGettrick (aelod lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd Mike Durke (Aelod Lleol) ar ei ran ef ei hun a'i gydweithwyr yn ward 2 y Cocyd a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Diwygio amodau 3, 5, 10 ac 11 i gynnwys:

"......... Ymgymerir â'r datblygiad wedi hynny'n unol â'r Cynllun Rheoli Gweithredol cymeradwy (3) / Cynlluniau Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) (5) / strategaeth goleuo sensitif (10) / Cynllun Rheoli Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol (RhAY) (11)".

Diwygio amod 14 i nodi:

Bydd y gwelliannau arfaethedig i fynediad a'r gyffordd, a gosod cilfach basio o fewn y safle, yn cael eu gwneud yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd: 01 gwaith mynediad arfaethedig a dadansoddiad o Symudiad a Llwybr, 02 cynllun safle olrhain cerbydau gwastraff, TREHAF- 3277-NMA-TRE-XX-DR-A-0003-S2- D0100 REV, 5 cynllun safle arfaethedig a dderbyniwyd ar 29 Gorffennaf 2022 a fydd yn cael ei gwblhau cyn meddiannaeth lesiannol y datblygiad a'i gynnal felly wedi hynny.

Rheswm: Er mwyn diogelwch y briffordd ac i leihau effaith cerbydau sy'n gwasanaethu'r datblygiad ar dagfeydd.

6 Llythyrau gwrthwynebiad ychwanegol gan gynnwys llythyr oddi wrth y Cynghorydd M W Locke.

2) caiff y cais cynllunio isod ei **gymeradwyo a'i gyfeirio at Cadw**, yn amodol ar y diwygiad a nodir isod:

**(Eitem 2) - Cais Cynllunio 2022/1700/LBC - Adeiladu pontŵn newydd sy'n cynnwys: llwyfan pen pont dur gyda decin rhwyll GRP wedi'i osod yn sownd wrth y wal; 4 pontŵn concrit gwydrffibr wedi'u cysylltu sy'n codi i fyny ac i lawr, 4 colofn fertigol ddur a phont ddur golynnog gyda decin rhwyll GRP sy'n cysylltu'r ddau, rheiliau gwarchod a gatiau i ymyl y cei a'r llwyfan pen pont o ddur di-staen; ac o gwmpas y pontynau dur galfanedig, colofnau goleuo alwminiwm 5m o uchder a chymhorthion diogelwch ac achub (cais am**

**Ganiatâd Adeilad Rhestredig) yng Nghei Afon Tawe ar hen safle Gwaith Copr yr Hafod, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Dylai'r penderfyniad ar Dudalen 63 ddarllen:

"Hysbysu Gweinidogion Cymru, drwy Cadw, o'r bwriad i GYMERADWYO yn amodol ar yr amodau canlynol:"

Yn ogystal, mae gwall ar T61, Paragraff 5 – uchder y rheiliau dur di-staen yw 1.2m.

3) **cymeradwyo'r** cais cynllunio a nodir isod yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:

**(Eitem 3) - Cais Cynllunio 2021/2825/FUL - Adeiladu adeilad storio ar gyfer Trysorau'r Tip, gweithdy, 5 cynhwysydd storio gyda chanopïau ac adleoli 10 o leoedd parcio staff yn Uned 22 a'r Safle Byrnu, Ferryboat Close, Parc Menter Abertawe, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Mae brawddeg anorffenedig ar dudalen 73 ar waelod y dudalen. Dylai'r frawddeg ddarllen:

"Nid ystyrir felly y byddai cyflwyno'r adeilad hwn yn y lleoliad hwn yn cael effaith andwyol ar gymeriad neu amwynder gweledol yr ardal."

Daeth y cyfarfod I ben am MeetingActualFinishTime

**Cadeirydd**